# CANLLAW DEILIAID TAI I ARCHAEOLEG A CHYNLLUNIO YNG NGHYMRU



# CANLLAW DEILIAID TAI I ARCHAEOLEG A CHYNLLUNIO YNG NGHYMRU

Paratowyd y testun ar gyfer y canllaw hwn gan Ken Murphy o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, gyda chyfraniadau gan staff y tair ymddiriedolaeth archaeolegol arall, Cadw ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r darluniau o ddetholiad o brosiectau yr ymgymerodd yr ymddiriedolaethau â nhw dros y blynyddoedd diwethaf.

Darparwyd cyllid grant gan Cadw i gynhyrchu'r llyfryn hwn.

# CANLLAW DEILIAID TAI I ARCHAEOLEG A CHYNLLUNIO YNG NGHYMRU

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **PWY DDYLAI DDARLLEN Y CANLLAW HWN?** | **1** |
| **DYMA RAI PWYNTIAU ALLWEDDOL** | **1** |
| **BETH YW ARCHAEOLEG?** | **3** |
| **PAM CYNNWYS ARCHAEOLEG MEWN CYNLLUNIO?** | **3** |
| **BETH YW SAFLEOEDD, HENEBION AC ADEILADAU ARCHAEOLEGOL?** | **5** |
| **BLE GA'I WYBODAETH AM ARCHAEOLEG?** | **8** |
| **BETH YW LLE ARCHAEOLEG YN Y BROSES GYNLLUNIO?** | **10** |
| **BETH SYDD ANGEN I FI WNEUD I GAEL CANIATÂD CYNLLUNIO?** | **13** |
| **BETH YDW I'N GWNEUD AR ÔL I GANIATÂD CYNLLUNIO GAEL EI ROI?** | **18** |
| **PA FATH O WAITH ARCHAEOLEGOL SY'N OFYNNOL AR GYFER CYNLLUNIO?** | **23** |
| **DYMA SUT I DDOD O HYD I FWY O WYBODAETH AM DDEDDFWRIAETH A CHANLLAWIAU** | **29** |
| **BETH YW'R SEFYDLIAD SIARTREDIG AR GYFER ARCHAEOLEGWYR?** | **30** |
| **Â PHWY DDYLWN I GYSYLLTU I GAEL MWY O WYBODAETH A CHYNGOR?** | **32** |
| **MANYLION CYSWLLT** | **34** |

# PWY DDYLAI DDARLLEN Y CANLLAW HWN?

Mae’r canllaw hwn wedi’i anelu’n bennaf at y rhai sydd heb lawer o brofiad neu ddim profiad o’r system gynllunio, ac yn benodol, archaeoleg a chynllunio. Bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi:

- Os ydych chi’n ystyried gwneud cais am ganiatâd cynllunio ac yn meddwl y gallai fod dimensiwn archaeolegol i’ch cais.
- Os ydych wedi cyflwyno cais cynllunio ac mae eich awdurdod cynllunio lleol wedi dweud bod angen i chi ddarparu gwybodaeth archaeolegol cyn y gallant ystyried eich cais.
- Os ydych wedi cael caniatâd cynllunio ond bod eich awdurdod cynllunio lleol wedi gosod amod archaeolegol arno, ac rydych eisiau gwybod beth ddylech chi wneud nesaf.

# DYMA RAI PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Mynnwch gael cyngor yn gynnar. Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn hapus i ddarparu cyngor ar eich cais cynllunio.  Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn darparu cyngor i’r awdurdodau cynllunio ar effaith archaeolegol cynnig i ddatblygu.
- Mae cyngor cychwynnol yn cael ei ddarparu’n rhad ac am ddim, ond eich gwaith chi, yr ymgeisydd cynllunio, yw cael gafael ar wybodaeth archaeolegol, a thalu amdani, i gefnogi’ch cais neu i gydymffurfio ag amod cynllunio. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi gyflogi archaeolegydd â chymhwyster proffesiynol.
- Mae olion archaeolegol yn fregus, ac os cânt eu dinistrio, fe’u collir am byth. Bwriad y system gynllunio yw gwarchod yr olion hyn er budd cenedlaethau’r dyfodol. Os na ellir eu gwarchod yna bydd y system gynllunio yn sicrhau bod cofnod ohonynt yn cael ei wneud cyn iddynt gael eu difrodi neu’u dinistrio.
- Mae rhai o’r darganfyddiadau archaeolegol rhyfeddaf dros y degawdau diwethaf wedi digwydd yn sgil gwaith a wnaed drwy’r broses gynllunio.




*Mae archaeoleg yn mynd rhagddi ar hyd y flwyddyn ac ym mhob tywydd. Yma gwelwch archaeolegydd ar friff gwylio wrth i uwchbridd gael ei dynnu.*

# BETH YW ARCHAEOLEG?

Astudio ymddygiad pobl trwy ddadansoddi olion ffisegol yw archaeoleg. P’un a ydym yn gwybod am yr olion hyn neu beidio, rydym yn byw ein bywydau ynghanol amgylchedd hanesyddol cyfoethog Cymru. Mae’r gorffennol ym mhob man, mae’n rhoi i ni ymdeimlad o le ac yn diffinio pwy ydym ni fel cenedl. Nid safleoedd archaeolegol claddedig yn unig mae’n cynnwys, ond adeiladau a phontydd, ffermydd a chaeau, eglwysi a chapel: hanes Cymru wedi’i ysgrifennu mewn pridd, cerrig, brics a dur.

Ni ellir adnewyddu olion ffisegol ymddygiad pobl yn y gorffennol. Mae llawer ohonynt yn fregus ac yn agored i niwed. Os cânt eu dinistrio, fe’u collir am byth.

# PAM CYNNWYS ARCHAEOLEG MEWN CYNLLUNIO?

Mae’r amgylchedd hanesyddol, sy’n cynnwys archaeoleg, yn ganolog i ymdeimlad Cymru o hunaniaeth a dylid ei gynnal er budd cenedlaethau heddiw ac yfory. Ond mae’n fregus, ac mae dyletswydd arnom i’w reoli mewn modd cynaliadwy er mwyn sicrhau bod yr hyn sy’n arwyddocaol yn cael ei drosglwyddo ymlaen.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu mewn modd sy’n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu’u hanghenion hwythau. Hefyd, mae’r Ddeddf yn disgrifio cymdeithas sy’n ‘gwarchod diwylliant a threftadaeth’.

Ceir manylion am sut a pham mae hyn yn effeithio arnoch chi ym Mholisi Cynllunio Cymru Pennod 6, a TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Hefyd, mae gan rai awdurdodau cynllunio lleol fanylion unrhyw Ardaloedd Archaeolegol Sensitif fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae’r ardaloedd hyn yn amlygu lle ceir potensial uwch i ddyddodion archaeolegol fodoli oherwydd crynodiadau o olion sy’n hysbys. Caiff ardaloedd Aneddiadau Hanesyddol eu cofnodi hefyd.

Trwy gynllunio sensitif, gellir rheoli, gwarchod a chynnal yr amgylchedd hanesyddol, a’i phasio ymlaen er budd cenedlaethau’r dyfodol.



*Nid ar dir yn unig y ceir archaeoleg.*
*Yma, mae cofnod yn cael ei wneud*
*o longddrylliad ar flaendraeth.*

# BETH YW SAFLEOEDD , HENEBION AC ADEILADAU ARCHAEOLEGOL?

## Beth yw heneb gofrestredig?

Ceir dros bedair mil o safleoedd yng Nghymru yr ystyrir eu bod yn bwysig yn genedlaethol, ac felly maent wedi’u dynodi yn henebion cofrestredig ac wedi’u gwarchod yn gyfreithiol. Diben cofrestru yw sicrhau cadwraeth henebion. Mae hyn yn golygu y bydd rhagdybiaeth yn erbyn gwaith arfaethedig a fydd yn niweidio heneb neu ei lleoliad. Mae Cof Cymru yn darparu gwybodaeth am yr holl henebion cofrestredig yng Nghymru.

## Beth yw safleoedd, henebion ac adeiladau archaeolegol heb eu dynodi?

Mae dros gant saith deg a phump o filoedd o safleoedd a henebion wedi’u cofnodi yng Nghymru sydd heb ddynodiad cyfreithiol. Mae safleoedd wedi’u cofnodi yn amrywio o arfau fflint wyth mil o flynyddoedd oed i byllau glo yr ugeinfed ganrif. Y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (CAH) rhanbarthol sy’n darparu’r brif ffynhonnell wybodaeth am y safleoedd hyn, ac yn darparu’r sylfaen ar gyfer cyngor cynllunio archaeolegol. Caiff CAH eu diweddaru’n gyson wrth i safleoedd archaeolegol newydd gael eu darganfod. Gall safleoedd heb eu dynodi ar CAH fod o bwysigrwydd cenedlaethol, er nad ydynt wedi’u dynodi yn henebion cofrestredig. Gellir cael gwybodaeth gryno am yr holl safleoedd, henebion ac adeiladau ar wefan Archwilio.

## A oes unrhyw fathau eraill o safleoedd dynodedig neu gofrestredig?

Oes. Y pum math sydd wedi’u rhestru isod yw’r rhai sy’n fwyaf tebygol o fod â dimensiwn archaeolegol.

### Adeiladau Rhestredig

Caiff adeiladau eu rhestru pan ystyrir eu bod o ddiddordeb pensaerniol neu hanesyddol arbennig. Mae tua thri deg mil o adeiladau rhestredig yng

Nghymru. Gall olion archaeolegol claddedig orwedd o dan adeiladau rhestredig a gall dadansoddi'u muriau, coedydd ac elfennau eraill ddarparu gwybodaeth am ddatblygiad hanesyddol, technegau adeiladu a'u defnydd. Mae angen caniatâd adeilad rhestredig ar waith i ddymchwel, ymestyn neu newid adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd a fydd yn effeithio ar ei gymeriad. Mae Cof Cymru'n darparu gwybodaeth am yr holl adeiladau rhestredig yng Nghymru.

## Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

Mae dros bedwar cant o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yng Nghymru. Gallai cynlluniau plannu oroesi fel llawer o elfennau eraill, fel terasau, llwybrau, rhodfeydd a nodweddion dŵr; gall y rhain gael eu dadansoddi, eu hastudio a'u rheoli gan ddefnyddio ystod o dechnegau archaeolegol. Mae Cof Cymru yn darparu gwybodaeth am yr holl barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yng Nghymru.

## Safleoedd Treftadaeth y Byd

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn fannau o werth cyffredinol eithriadol. Mae datblygiadau arfaethedig a allai effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae Cof Cymru yn darparu gwybodaeth am Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru.

## Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig

Mae hanner cant ac wyth o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig wedi'u nodi, yr ystyrir mai hwy yw'r enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirweddau yng Nghymru. Mae'r gofrestr o'r tirweddau hanesyddol hyn yn darparu gwybodaeth i sicrhau bod cymeriad hanesyddol yn cael ei gynnal pan fydd newid yn cael ei ystyried. Mae Cof Cymru yn darparu gwybodaeth am y tirweddau hanesyddol cofrestredig. Mae gwybodaeth fanylach ar gael ar wefannau pedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru.

## Meysydd Brwydro Cofrestredig

Mae rhestr flaenoriaeth wedi'i llunio o bedwar deg a saith o frwydrau a gwarchaeau yng Nghymru. Gellir cael gwybodaeth am brif ffynonellau ac adroddiadau ymchwil ar wefan Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.



*Gall archaeoleg bwysig orwedd ychydig o dan yr wyneb. Yma, wrth adeiladu estyniad bach i dŷ, datgelwyd mur tŵr canoloesol yn gorwedd yn gyffiniol â mur adeilad Rhufeinig.*

# BLE GA'I WYBODAETH AM ARCHAEOLEG?

Y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) rhanbarthol i Gymru yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am safleoedd archaeolegol. Mae'r cofnodion yn cynnwys manylion yr holl safleoedd archaeolegol, henebion, adeiladau hanesyddol a thirweddau hanesyddol sy'n hysbys. Mae gwybodaeth am bob un o'r cant saith deg a phump o filoedd o safleoedd ar gael yn https://www.archwilio.org.uk/arch/

Ar wefan Cof Cymru - https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru - ceir disgrifiadau o'r holl asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig yng Nghymru, gan gynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, safleoedd treftadaeth y byd, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, tirweddau hanesyddol cofrestredig a llongddrylliadau gwarchodedig.

Gellir gweld gwybodaeth i lywio llunio'r Rhestr o Feysydd Brwydro Hanesyddol yng Nghymru ar wefan Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru https://rcahmw.gov.uk/

Mae'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru wedi cynnal astudiaethau manwl o dirweddau hanesyddol, a elwir yn ddisgrifio nodweddion. Mae gwybodaeth am ddisgrifio nodweddion hanesyddol ar gael ar wefannau'r ymddiriedolaethau (gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hwn).

Coflein - https://www.coflein.gov.uk/en - yw'r gronfa ddata ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) ac mae'n cynnwys manylion miloedd lawer o safleoedd archaeolegol, henebion, adeiladau a safleoedd morol, ynghyd â mynegai i'r lluniadau, llawysgrifau a ffotograffau a gedwir yn archif CHCC.

Bydd gwybodaeth ar wefan eich awdurdod lleol hefyd am eu polisïau cynllunio a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys archaeoleg ac ardaloedd cadwraeth.

**Mae'n bwysig eich bod yn gwybod nad Coflein ac Archwilio yw'r cofnod llawn, a rhaid eu defnyddio at ymchwil personol yn unig.**
Os oes angen gwybodaeth y CAH neu CHCC arnoch at ddibenion cynllunio neu ddatblygu, rhaid i chi neu'ch ymarferydd archaeolegol gysylltu â'r sefydliad perthnasol.




Gwerthusiad archaeolegol ar raddfa fach
ar lain gwag mewn tref hanesyddol.

# BETH YW LLE ARCHAEOLEG YN Y BROSES GYNLLUNIO?

## Beth yw'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth ac arweiniad?

Mae **Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol (1979)** yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwarchod a rheoli archaeoleg. Yng Nghymru, mae Deddf 1979 wedi'i diwygio gan **Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016).**

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (PPW)** yn darparu cynllunio cyd-destun cyffredinol yng Nghymru ac mae'n cydnabod yr angen am i'r system gynllunio warchod, cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Mae **Nodyn Cyngor Technegol 24 (TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol)** yn darparu arweiniad cenedlaethol manylach ychwanegol ar y modd y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn y broses gynllunio.

Mae bob un o'r rhain ar gael ar-lein. Mae'n bwysig gwybod bod effaith eich datblygiad ar leoliad ased dynodedig yn ystyriaeth y mae'n rhaid rhoi sylw iddi.

## Beth yw rôl ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn y broses Gynllunio?

Mae'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru'n darparu cyngor i awdurdodau cynllunio lleol Cymru. Maent yn argymell y math o waith archaeolegol y dylai gael ei gyflawni fel rhan o'r broses gynllunio ac yn monitro'r gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau proffesiynol a safonau cynllunio. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn fewnol ar gyfer cynllunio o fewn y Parc. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae cyngor cynllunio'n cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol yng Nghymru ar gyfer yr ardal (gweler y map ar dudalen 33).

Mae pob ymddiriedolaeth archaeolegol yn cynnwys dwy is-adran. Mae'r is-adrannau cynghori yn darparu gwybodaeth a chyngor i sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, ac yn cadw'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Mae'r is-adrannau ymarferwyr yn ymgymryd â phrosiectau archaeolegol masnachol, y gallai rhai ohonynt fod wedi deillio o'r broses gynllunio.

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y ddwy is-adran, mae’r ymddiriedolaethau yn cydymffurfio â *Chod Ymarfer* cenedlaethol *ar gyfer Rhoi Cyngor Archaeolegol*. Mae’r Cod ar gael ar wefannau’r ymddiriedolaethau.

## Ble ydw i’n cael cyngor cynllunio archaeolegol?

Mae pedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru’n darparu cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru gyfan ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle mae cyngor mewnol yn cael ei ddarparu gan Awdurdod y Parc. Darperir manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hwn. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae cyngor cynllunio’n cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol yng Nghymru ar gyfer yr ardal (gweler y map ar dudalen 33).

Os ydych chi’n ystyried cyflwyno cais cynllunio ac yn meddwl y gallai fod dimensiwn archaeolegol iddo, yna gall yr ymddiriedolaethau archaeolegol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddarparu cyngor cychwynnol rhad ac am ddim ar y dull gweithredu gorau. Trwy gael cyngor yn gynnar, gallwch osgoi oedi yn ddiweddarach a chostau annisgwyl.

## Pwy sy’n penderfynu ar fy nghais cynllunio?

Ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru sy’n darparu cyngor archaeolegol, ond awdurdodau cynllunio lleol sy’n penderfynu ar geisiadau cynllunio. Ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod y Parc sy’n darparu cyngor ac yn penderfynu ar geisiadau.

## Beth mae diogelu olion archaeolegol yn ei olygu?

Mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio’n datgan, lle gallai ceisiadau cynllunio effeithio ar olion archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (cofrestredig ac anghofrestredig) bydd rhagdybiaeth o blaid eu diogelu. Diogelu hefyd yw’r opsiwn a ffefrir ar gyfer olion o bwysigrwydd lleol a rhanbarthol, lle bo modd. Mae dulliau diogelu yn cynnwys:

- Osgoi adeiladu yn yr ardal lle ceir olion archaeolegol
- Adleoli draeniau a gwasanaethau eraill
- Codi lefelau’r ddaear
- Dylunio sylfeini fel nad oes unrhyw ddifrod yn digwydd i olion archaeolegol



*Mae cynhyrchu cofnodion manwl o ddarganfyddiadau yn rhan hanfodol o archaeoleg. Yma, gwelwch archaeolegydd yn llunio cynllun o olion archaeolegol.*

# BETH SYDD ANGEN I FI WNEUD I GAEL CANIATÂD CYNLLUNIO?

Trwy gael cyngor yn gynnar cewch eich rhybuddio am unrhyw faterion archaeolegol posibl sy’n gysylltiedig â’ch cais cynllunio. Mewn rhai achosion, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn mynnu eich bod yn darparu gwybodaeth archaeolegol ychwanegol cyn y gall ystyried eich cais cynllunio (gelwir hyn yn rhag-gyflyru). Gallai’r wybodaeth hon gynnwys un o’r canlynol neu gyfuniad ohonynt: asesiad archaeolegol pen-desg, asesiad o’r effaith ar dreftadaeth, asesiad o leoliad, arolwg geoffisegol, arolwg cloddwaith, arolwg o adeilad, gwerthusiad maes. Rhoddir disgrifiad o bob un o’r gweithiau archaeolegol hyn nes ymlaen yn y canllaw hwn. Bydd angen i chi gyflogi ymarferydd archaeolegol proffesiynol i ddarparu’r wybodaeth ychwanegol hon.

Cyn gwneud unrhyw waith archaeolegol dylai eich ymarferydd archaeolegol proffesiynol ddarparu cynllun ymchwiilio ysgrifenedig yn nodi manylion y gwaith archaeolegol fydd yn cael ei wneud, a dylid anfon hwn at eich awdurdod cynllunio lleol. Dylai eich awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo’r cynllun ymchwilio ysgrifenedig cyn dechrau’r gwaith. Rhaid i’r cynllun ymchwilio ysgrifenedig gydymffurfio â’r Safonau priodol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a dogfennau canllawiau perthnasol eraill.

Bydd eich ymarferydd archaeolegol yn llunio adroddiad neu adroddiadau ar y gwaith a wnaed. Bydd yr adroddiadau hyn, canlyniadau asesiadau, arolygon a gwerthusiadau, yn ffurfio rhan o’ch cais cynllunio a bydd yn dangos bod yr archaeoleg sy’n gysylltiedig â’ch cais wedi’i deall yn llawn. Gallai eich cais cynllunio ddangos eich bod wedi newid eich cynlluniau datblygu i osgoi gwneud difrod i olion archaeolegol neu ddangos pa fesurau fyddwch chi’n eu rhoi ar waith i liniaru difrod i olion archaeolegol yn ystod yr adeiladu. Cofiwch mai diogelu olion archaeolegol yw’r opsiwn a ffefrir bob tro.

## A oes rhaid i mi dalu am waith archaeolegol?

Oes. Chi, yr ymgeisydd, sy'n gyfrifol am gael y wybodaeth ychwanegol hon trwy gomisiynu ymarferydd archaeolegol proffesiynol i weithio ar eich rhan. Bydd eich ymarferydd archaeolegol yn cynhyrchu adroddiad neu adroddiadau ar y gwaith a gyflawnwyd. Bydd angen i chi gyflwyno'r rhain gyda'ch cais cynllunio.

## Sut ydw i'n dod o hyd i ymarferydd archaeolegol?

Pan fyddwch chi'n comisiynu ymarferydd archaeolegol i weithio ar eich rhan, dylech fodloni eich hun fod y gallu gan yr ymarferydd i ymgymryd â'r gwaith archaeolegol. Mae'n rhaid i'ch ymarferydd archaeolegol gydymffurfio â Chod Ymddygiad Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) a Safonau a chanllawiau perthnasol CIfA. Mae CIfA yn achredu archaeolegwyr unigol a sefydliadau am eu cymhwysedd proffesiynol. Dylech ystyried, os aiff pethau o'i le, na all CIfA gymryd camau yn erbyn ymarferydd archaeolegol nad yw wedi'i achredu'n broffesiynol ganddynt.

Ceir rhestr o Sefydliadau Cofrestredig Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr yn https://www.archaeologists.net/regulation/organisations

## A fydd angen caniatâd Heneb Gofrestredig arnaf yn ogystal â chaniatâd cynllunio?

Os bydd eich datblygiad arfaethedig yn effeithio ar heneb gofrestredig, mae'n rhaid i chi gael caniatâd heneb gofrestredig yn ychwanegol at ganiatâd cynllunio. Cadw sy'n gweinyddu henebion cofrestredig ac mae'n rhoi caniatâd henebion cofrestredig. Argymhellir yn gryf eich bod yn cael cyngor yn gynnar gan Cadw os ydych o'r farn y gallai eich datblygiad arfaethedig effeithio ar heneb gofrestredig neu ei lleoliad.

Mae henebion cofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff caniatâd ei roi i gais cynllunio a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar heneb gofrestredig. Os gellir gweld eich datblygiad arfaethedig o heneb gofrestredig, gall fod yn ofynnol i chi gyflwyno asesiad o'r effaith y bydd eich cynnig yn ei chael ar leoliad yr heneb.

## A fydd angen caniatâd Adeilad Rhestredig arnaf yn ogystal â chaniatâd cynllunio?

Os bydd eich datblygiad arfaethedig yn effeithio ar adeilad rhestredig, rhaid i chi gael caniatâd adeilad rhestredig yn ychwanegol at ganiatâd cynllunio. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhoi caniatâd adeilad rhestredig. Cynghorir eich bod yn cael cyngor yn gynnar gan swyddog cadwraeth yn eich awdurdod cynllunio lleol os ydych o'r farn y gallai eich datblygiad arfaethedig effeithio ar adeilad rhestredig. Bydd yn ofynnol i chi gyflwyno asesiad o'r effaith ar dreftadaeth er mwyn cael caniatâd adeilad rhestredig.

## A fydd angen caniatâd Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig arnaf yn ogystal â chaniatâd cynllunio?

Nid oes proses ganiatâd ar wahân ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ond os ydych o'r farn y bydd eich datblygiad arfaethedig yn cael effaith ar barc neu ardd hanesyddol gofrestredig neu'u lleoliad, dylech gael cyngor yn gynnar gan eich awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod goblygiadau eich cynnig wedi'u deall yn llawn. Bydd yr effaith y gallai eich datblygiad arfaethedig ei chael ar barc neu ardd hanesyddol gofrestredig yn cael ei hystyried yn ystod y broses penderfynu ar eich cais cynllunio. Er mwyn gwneud hyn, gall eich awdurdod cynllunio lleol fynnu eich bod yn cyflwyno asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.

## A fydd angen caniatâd Safle Treftadaeth y Byd arnaf yn ogystal â chaniatâd cynllunio?

Nid oes proses ganiatâd ar wahân ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd, ond os ydych o'r farn y bydd eich datblygiad arfaethedig yn cael effaith ar Safle Treftadaeth y Byd neu ei leoliad, dylech gael cyngor yn gynnar gan eich awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod goblygiadau eich cynnig wedi'u deall yn llawn. Bydd yr effaith y gallai eich datblygiad arfaethedig ei chael ar Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei hystyried yn ystod y broses penderfynu ar eich cais cynllunio. Er mwyn gwneud hyn, gall eich awdurdod cynllunio lleol fynnu eich bod yn cyflwyno asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.

## A fydd angen caniatâd Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig arnaf yn ogystal â chaniatâd cynllunio?

Nid oes proses ganiatâd ar wahân ar gyfer tirweddau hanesyddol cofrestredig. Bydd yr effaith y gallai datblygiad arfaethedig ei chael ar

dirwedd hanesyddol gofrestredig yn ystyriaeth dim ond os bydd y datblygiad arfaethedig yn cael mwy nag effaith leol, fel gorsafoedd pŵer, ffyrdd a seilwaith arall. Ar gyfer datblygiadau bach, ni fydd gofyniad i gyflwyno asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.

## A fydd angen caniatâd Maes Brwydr Hanesyddol arnaf yn ogystal â chaniatâd cynllunio?


Nid oes proses ganiatâd ar wahân ar gyfer meysydd brwydr hanesyddol, ond os ydych o'r farn y bydd eich datblygiad arfaethedig yn cael effaith ar faes brwydr hanesyddol neu'i leoliad, dylech gael cyngor yn gynnar gan eich awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod goblygiadau eich cynnig wedi'u deall yn llawn. Bydd yr effaith y gallai eich datblygiad arfaethedig ei chael ar faes brwyd hanesyddol yn cael ei hystyried yn ystod y broses penderfynu ar eich cais cynllunio. Er mwyn gwneud hyn, gall eich awdurdod cynllunio lleol fynnu eich bod yn cyflwyno asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.

## Beth sy'n digwydd os caiff olion archaeolegol eu darganfod?

Gall arolwg geoffisegol neu werthusiad maes ddatgelu olion archaeolegol. Os bydd hyn yn digwydd, yna dylech ystyried addasu eich cynlluniau datblygu er mwyn osgoi niweidio neu ddinistrio'r olion cyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio. Cofiwch mai diogelu olion archaeolegol yw'r opsiwn a ffefrir bob tro. Mae'n bosibl y bydd eich awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i chi ar sail archaeolegol, ond os nad yw'r olion o bwysigrwydd cenedlaethol mae'n debygol y rhoddir caniatâd cynllunio gydag amod archaeolegol wedi'i atodi. Dylech wybod y gall cydymffurfio â rhai amodau fod yn gostus a mynnu cryn dipyn o amser.

## Beth sy'n digwydd os oes olion archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu darganfod?

Gall arolwg geoffisegol neu werthusiad maes ddatgelu olion archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol. Os felly, bydd rhagdybiaeth o blaid eu diogelu ac mae'r awdurdod cynllunio lleol yn annhebygol o roi caniatâd cynllunio. Gall Cadw ddynodi olion heneb gofrestredig. Mae darganfod olion archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn ystod arolygon a gwerthusiadau geoffisegol yn ddigwyddiad prin eithriadol.



*Mae’r arolwg geoffisegol mawr hwn wedi canfod olion claddedig anheddiad cynhanesyddol yn cynnwys clostiroedd petryalog. Mae’r cylchoedd yn nodi lleoliadau tai crwn. Ar yr wyneb, cae gwastad, dinodwedd yw hwn. Mae’r arolwg yn mesur oddeutu 250m ar draws.*

# BETH YDW I'N GWNEUD AR ÔL I GANIATÂD CYNLLUNIO GAEL EI ROI?

## Beth yw amod cynllunio?

Nid oes unrhyw oblygiadau archaeolegol ynghlwm wrth y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. Mewn rhai achosion, gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu bod y wybodaeth o'r asesiadau, arolygon a gwerthusiadau a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio yn dynodi nad oes angen unrhyw waith archaeolegol pellach. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod angen gwneud gwaith cofnodi archaeolegol pellach, yna bydd yn pennu amod ar y caniatâd cynllunio. Gall ddweud hefyd fod angen rhagor o waith cyn gwneud penderfyniad.

Mewn rhai achosion, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn pennu amod ar ganiatâd cynllunio heb yr angen am asesiadau, arolygon neu werthusiadau blaenorol gan fod dealltwriaeth ddigon da o'r archaeoleg. Yn yr amgylchiadau hyn, amod ar gyfer briff gwylio fyddai fel arfer.

Er mai'r awdurdodau cynllunio lleol sy'n gwneud y penderfyniadau, maent yn gweithredu ar gyngor a ddarparwyd gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, ac eithrio ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle mae Awdurdod y Parc yn darparu cyngor yn fewnol. Yr ymddiriedolaethau ac Awdurdod Parc sy'n pennu'r math o waith cofnodi archaeolegol sydd ei angen i gydymffurfio ag amod cynllunio. Dylech gysylltu â'r ymddiriedolaeth archaeolegol berthnasol neu Awdurdod y Parc os ydych chi ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gael gwybodaeth am y math o waith cofnodi archaeolegol y mae'n rhaid i chi ei wneud i gydymffurfio ag amod cynllunio.

## A oes rhaid i mi dalu am waith cofnodi archaeolegol i gydymffurfio ag amod cynllunio archaeolegol?

Oes. Eich cyfrifoldeb chi, yr ymgeisydd neu'r datblygwr, yw cael gwasanaethau ymarferydd archaeolegol proffesiynol i sicrhau cydymffurfio â'r amod.

## Sut ydw i'n dod o hyd i ymarferydd archaeolegol?

Pan fyddwch chi'n comisiynu ymarferydd archaeolegol i weithio ar eich rhan, dylech fodloni'ch hun fod y gallu gan yr ymarferydd i ymgymryd â'r gwaith archaeolegol. Rhaid i'ch ymarferydd archaeolegol gydymffurfio â Chod

Ymddygiad Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) a Safonau a chanllawiau perthnasol CIfA. Mae CIfA yn achredu archaeolegwyr unigol a sefydliadau am eu cymhwysedd proffesiynol. Dylech ystyried, os aiff pethau o'i le, na all CIfA gymryd camau yn erbyn ymarferydd archaeolegol nad yw wedi'i achredu'n broffesiynol ganddynt.

Ceir rhestr o Sefydliadau Cofrestredig Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr yn https://www.archaeologists.net/regulation/organisations

## Sut ydw i'n cydymffurfio ag amod cynllunio archaeolegol?

Dylai eich ymarferydd archaeolegol proffesiynol ddarparu cynllun ymchwilio ysgrifenedig yn nodi manylion y gwaith cofnodi archaeolegol sydd ei angen i gydymffurfio â'r amod cynllunio. Rhaid i chi gael eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig wedi'i gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn bod gwaith adeiladu yn dechrau. Rhaid i'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig cydymffurfio a'r Safonau priodol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a dogfennau canllaw perthnasol eraill.

Nodwch mai'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig yw cam cyntaf cydymffurfio ag amod cynllunio. Ni fydd yr amod cynllunio wedi'i gyflawni hyd nes bod y gwaith cofnodi archaeolegol wedi'i gwblhau a bod adroddiad ar y gwaith wedi'i gynhyrchu a'i anfon at eich awdurdod cynllunio lleol, ac archif wedi'i chreu o wybodaeth a gasglwyd yn ystod y gwaith.

## Beth a olygir gan gofnodi olion archaeolegol?

Diogelu olion archaeolegol yw'r opsiwn a ffefrir o hyd, hyd yn oed i'r rheiny o bwysigrwydd lleol a rhanbarthol. Lle nad yw diogelu yn bosibl, rhaid i'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig nodi sut bydd yr olion archaeolegol yn cael eu cofnodi a sut yr adroddir amdanynt. Mae methodolegau cofnodi yn cynnwys:

- Cloddio archaeolegol
- Briff gwylio archaeolegol
- Arolwg o adeiladau

## Beth sy’n digwydd os yw olion archaeolegol annisgwyl yn cael eu darganfod yn ystod adeiladu?

Dylai fod gennych chi, yr ymgeisydd neu’r datblygwr, drefniadau wrth gefn i ddelio â darganfyddiadau annisgwyl. Os bydd hyn yn digwydd, bydd rhaid i fesurau priodol gael eu cytuno rhyngoch chi a’r awdurdod cynllunio lleol. Os yw’r olion o bwysigrwydd cenedlaethol, dylai gwaith adeiladu a allai effeithio ar yr olion ddod i ben. Mae gan Cadw y grym i gofrestru’r olion – prin pawn y mae hyn yn digwydd.

## Beth sy’n digwydd os yw olion dynol yn cael eu darganfod?

Pe rhagwelwyd y byddai olion dynol yn cael eu canfod, yna mae’n rhaid eich bod chi neu’ch ymarferydd archaeolegol wedi cael trwydded gladdedigaeth eisoes gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Os canfyddir olion dynol annisgwyl yn ystod adeiladu, yna ni ddylid gwneud unrhyw waith adeiladu pellach yn ardal y claddedigaethau hyd nes eich bod chi neu’ch ymarferydd archaeolegol wedi cael trwydded gladdedigaeth; gellir gwneud hyn yn gyflym iawn. Fodd bynnag, mae delio ag olion dynol yn mynnu llawer o amser ac mae’n gostus, a gallai diwygio’ch cynlluniau i ddiogelu’r olion fod yn opsiwn gwell.

## A oes rhaid i mi dalu am adroddiad ar y gwaith archaeolegol hefyd?

Oes. Dim ond pan fydd adroddiad wedi’i gyflwyno ac archif wedi’i rhoi ar adnau y bydd y gwaith cofnodi archaeolegol wedi’i gwblhau. Bydd y cynllun ymchwilio ysgrifenedig yn disgrifio’r dull adrodd. Ar gyfer y rhan fwyaf o waith cofnodi archaeolegol mae adroddiad heb ei gyhoeddi (cyfeirir ato weithiau fel adroddiad ‘llenyddiaeth lwyd’) yn ddigonol, ond ar gyfer darganfyddiadau pwysig, bydd adroddiad yn cael ei lunio i’w gyhoeddi.

## Beth sy’n digwydd i arteffactau a ddarganfyddir yn ystod gwaith archaeolegol, ac i’r holl gofnodion a grëir?

Mae’n bwysig bod arteffactau arwyddocaol a ddarganfyddir yn ystod gwaith archaeolegol a chofnodion a gynhyrchwyd ar gael ar gyfer ymchwilwyr yn y dyfodol.

Mae arteffactau a ddarganfyddir yn ystod gwaith archaeolegol yn eiddo’r perchennog tir oni bai eu bod yn gyfystyr â thrysor fel y’i diffinnir gan Ddeddf Trysor 1996 a diwygiadau dilynol. Mae’n anarferol i ddarganfod ‘trysor’ yn ystod gwaith archaeolegol. Nid oes fawr o werth ariannol, neu ddim gwerth ariannol i’r rhan fwyaf o arteffactau, ond gallai rhai ohonynt fod o gryn

ddiddordeb archaeolegol. Nid yw pob arteffact yn deilwng i'w gadw, ond dylai'r rheiny sy'n werth eu cadw ffurfio archif a'u rhoi ar adnau mewn amgueddfa briodol. Os ydych chi, fel perchennog y tir, yn fodlon i arteffactau gael eu rhoi ar adnau gydag amgueddfa, bydd rhaid i chi lofnodi ffurflen trosglwyddo perchnogaeth amgueddfa - bydd eich ymarferydd archaeolegol yn trefnu hyn.

Bydd eich ymarferydd archaeolegol yn coladu'r arteffactau, cofnodion ysgrifenedig, ffotograffau a lluniadau a gynhyrchwyd yn ystod y gwaith archaeolegol mewn archif, a naill ai ei roi ar adnau gydag amgueddfa neu gyda'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth.

Dylai'r archif a gynhyrchir gan eich ymarferydd archaeolegol gydymffurfio â'r Safon Genedlaethol a Chanllawiau Arfer Gorau ar gyfer Casglu ac Adneuo Archifau Archaeolegol yng Nghymru 2017, a Safon berthnasol Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr.

## Sut ydw i'n cyflawni amod cynllunio?

Bydd eich ymarferydd archaeolegol yn llunio adroddiad ar y gwaith cofnodi archaeolegol. Ar ôl ei dderbyn, dylech anfon yr adroddiad ymlaen at eich awdurdod cynllunio lleol gyda'ch cais er mwyn cyflawni'r amod. Bydd yr awdurdod yn rhyddhau'r amod cynllunio os yw o'r farn fod yr adroddiad yn cydymffurfio â'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig a gymeradwywyd.

## Beth sy'n digwydd i'r adroddiad ar y gwaith cofnodi archaeolegol?

Ar ôl cyflawni'r amod cynllunio, dylech chi neu'ch ymarferydd archaeolegol anfon copi o'r adroddiad ar yr ymddiriedolaeth archaeolegol berthnasol yng Nghymru fel y gellir ei gyflwyno i ofal y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol lle bydd ar gael i'r cyhoedd i gyfeirio ato yn y dyfodol. Dylai eich ymarferydd archaeolegol sicrhau bod yr adroddiad yn cydymffurfio â Chanllawiau ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ar gyfer cyflwyno data i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys crynodeb dwyieithog.



Fe wnaeth y gwerthusiad archaeolegol hwn mewn gardd ddatgelu sylfeini adeilad Rhufeinig.

# PA FATHAU O WAITH ARCHAEOLEGOL SY’N OFYNNOL AR GYFER CYNLLUNIO?

## Asesiad archaeolegol pen-desg (gelwir hefyd yn asesiad amgylchedd hanesyddol pen-desg)

Er mwyn deall potensial archaeolegol safle, efallai y gofynnir i chi lunio adroddiad ar asesiad archaeolegol pen-desg cyn cyflwyno cais cynllunio.

Dylai asesiad pen-desg nodi’r adnodd archaeolegol hysbys a phosibl o fewn ardal chwilio benodedig gan ddefnyddio ffynonellau ysgrifenedig, graffig a ffotograffig presennol, a ffynonellau eraill. Mae ymweliad maes yn elfen hanfodol o asesiad pen-desg. Fel arfer bydd effaith weledol y datblygiad arfaethedig ar leoliad safleoedd archaeolegol o fewn yr ardal chwilio benodedig yn ffurfio rhan o’r asesiad.

Dylech chi, neu’ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, gytuno’r ardal ddaearyddol ar gyfer yr asesiad pen-desg a chynllun ymchwilio ysgrifenedig gyda’r cynghorwyr archaeolegol i’r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r asesiad.

Mewn rhai achosion, gall eich awdurdod cynllunio lleol ofyn i chi lunio adroddiad ar arfarniad o amgylchedd archaeolegol/hanesyddol yn hytrach nag asesiad pen-desg. Mae hon yn fersiwn wedi’i chwtogi o asesiad pen-desg gyda’r amcan unigol o bennu p’un a oes dimensiwn archaeolegol i’ch cais.

Gall yr awdurdod cynllunio lleol ofyn eich bod yn ymgymryd â gwaith archaeolegol ychwanegol ar ôl cyflwyno asesiad pen-desg neu arfarniad, fel arolwg geoffisegol neu werthusiad maes, cyn y gall benderfynu ar eich cais cynllunio.

## Asesiad o effaith datblygiad ar leoliad heneb gofrestredig

Lle nad yw asesiad pen-desg yn ofynnol ond bydd eich datblygiad arfaethedig yn effeithio ar leoliad heneb gofrestredig, gall Cadw ofyn i chi ddarparu adroddiad ar asesiad o effaith y datblygiad ar leoliad heneb gofrestredig.

Dylech chi, neu’ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod cwmpas y gwaith yn cael ei gytuno gan Cadw cyn dechrau’r asesiad.

## Asesiad o’r Effaith ar Dreftadaeth

Mae asesiad o’r effaith ar dreftadaeth yn broses i sicrhau eich bod yn ystyried arwyddocâd eich ased hanesyddol wrth i chi ddatblygu a dylunio cynigion ar gyfer newid. Rhaid i chi gynnal asesiad o’r effaith ar dreftadaeth ar gyfer ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth. Gall fod yn ofynnol i chi gyflwyno datganiad o’r effaith ar dreftadaeth gyda chais am ganiatâd heneb gofrestredig. Hefyd, gallwch ddefnyddio asesiad o’r effaith ar dreftadaeth i’ch helpu i ganfod y ffordd orau i ddarparu ar gyfer newid mewn parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a Safleoedd Treftadaeth y Byd.

## Arolwg o gloddwaith (gelwir yn arolwg topograffig weithiau)

Mae rhai olion archaeolegol yn goroesi fel twmpathau, gwrymiau, pantiau a cheudodau. Efallai y gofynnir i chi gan eich awdurdod lleol i gynhyrchu adroddiad yn cynnwys cynlluniau a phroffiliau manwl o’r olion hyn, naill ai fel rhan o’ch cais cynllunio neu fel amod cynllunio.

Mae’n rhaid i chi, neu’ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer arolwg cloddwaith yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r arolwg.

Gall arolwg cloddwaith fod yn un elfen yn unig o becyn o waith archaeolegol. Gallai elfennau eraill gynnwys gwerthusiad maes a chloddio.

## Arolwg geoffisegol

Mae arolwg geoffisegol yn canfod ac yn mapio olion archaeolegol dan ddaear. Gellir defnyddio amrywiaeth o dechnegau, yn cynnwys magnetometreg, gwrthedd a radar sy’n treiddio i’r ddaear, ac o’r rheiny, magnetometreg sy’n cael ei ddefnyddio’n fwyaf cyffredin gan y gellir cwmpasu ardaloedd mawr yn gyflym, ac mae’n rhoi canlyniadau dibynadwy yn gyson.

Mae'n rhaid i chi, neu'ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer arolwg geoffisegol yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r arolwg. Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, dylai eich ymarferydd archaeolegol gynhyrchu adroddiad ar yr arolwg.

Gall arolwg geoffisegol fod yn un elfen yn unig o becyn o waith archaeolegol. Gallai elfennau eraill gynnwys gwerthusiad maes a chloddio.

## Arolwg cerdded dros gaeau

Gellir dod ag arteffactau archaeolegol i wyneb y ddaear drwy'r weithred o aredig. Mae arolwg cerdded dros gaeau yn golygu cerdded yn systematig ar draws cae wedi'i aredig yn lleoli, plotio ac adfer yr arteffactau hyn. Efallai y gofynnir i chi gan eich awdurdod lleol i gynnal arolwg cerdded dros gaeau fel rhan o'ch cais cynllunio neu fel amod cynllunio.

Mae'n rhaid i chi, neu'ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer arolwg cerdded dros gaeau yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r arolwg. Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, dylai eich ymarferydd archaeolegol gynhyrchu adroddiad ar yr arolwg. Dylai archif o'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prosiect gael ei chreu a'i rhoi ar adnau gydag amgueddfa neu gyda'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth.

Gall arolwg cerdded fod yn un elfen yn unig o becyn o waith archaeolegol. Gallai elfennau eraill gynnwys arolwg geoffisegol, gwerthusiad maes a chloddio.

## Gwerthusiad maes

Gall gwerthusiad maes ddilyn ymlaen o asesiad pen-desg ac arolwg geoffisegol, neu gall fod yn ddarn o waith annibynnol.

Mae gwerthusiad (a elwir yn ffosio prawf weithiau) yn cynnwys cyfres o ffosydd cloddio wedi'u lleoli i adfer y wybodaeth archaeolegol fwyaf posibl ac i sicrhau bod yr olion archaeolegol wedi'u deall. Fel arfer, defnyddir cloddiwr mecanyddol i dynnu uwchbridd, a gwneud gwaith manylach â llaw wedyn. Ar rai safleoedd, bydd angen gwneud yr holl waith cloddio â llaw.

Ar ôl cwblhau’r gwaith maes, dylai eich ymarferydd archaeolegol gynhyrchu adroddiad o’r prosiect sy’n cynnwys dadansoddiadau arbenigwyr o arteffactau, dyddodion amgylcheddol ac olion eraill. Dylai archif o’r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prosiect gael ei chreu a’i rhoi ar adnau gydag amgueddfa neu gyda’r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth.

Mae angen gwerthusiad maes i ddarparu gwybodaeth i gefnogi cais cynllunio. Nid yw’n ddiben ynddo’i hun. Gall amod cynllunio sydd wedi’i atodi wrth ganiatâd cynllunio fynnu bod mwy o waith cofnodi archaeolegol yn cael ei wneud yn ystod adeiladu, fel briff gwylio neu gloddiad llwyr o’r olion archaeolegol a ddatgelwyd yn ystod y gwerthusiad.

Mae’n rhaid i chi, neu’ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer arolwg maes yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r arolwg.

## Arolwg adeilad

Lle mae eich cynnig yn golygu newid neu ddymchwel adeilad, gall fod angen cofnodi’r adeilad cyn dechrau gwaith neu tra bod newidiadau’n mynd rhagddynt. Ceir pedair lefel o’r arolwg adeilad. I bob pwrpas, mae’r lefel fwyaf sylfaenol, sef lefel 1, yn gofnod gweledol yn cynnwys ffotograffau, wedi’u hategu os yw’n briodol â lluniadau a disgrifiadau ysgrifenedig. Mae lefel 4, sef y cofnod mwyaf cynhwysfawr, yn briodol ar gyfer adeiladau o bwysigrwydd arbennig y gwneud newidiadau sylweddol iddo.

Mae’n rhaid i chi, neu’ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer adeilad yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r arolwg. Ar ôl cwblhau’r gwaith maes, dylai eich ymarferydd archaeolegol gynhyrchu adroddiad ar yr arolwg. Dylai archif o’r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prosiect gael ei chreu a’i rhoi ar adnau gydag amgueddfa neu gyda’r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth, yn ogystal â Chofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH) Rhanbarthol os yw’n ganlyniad cais cynllunio neu gais adeilad rhestredig.

## Briff gwylio archaeolegol

Dylid ymgymryd â briff gwylio archaeolegol yn ystod gwaith adeiladu gyda'r diben o arsylwi, cloddio a chofnodi olion archaeolegol. Fel arfer cynhelir briff gwylio wrth i uwchbridd gael ei dynnu, wrth balu'r sylfeini a chloddio ffosydd gwasanaethau. Dylech ystyried mesurau wrth gefn rhag ofn y bydd amgylchiadau annisgwyl, a dylid ysgrifennu'r rhain yn y cynllun ymchwilio ysgrifenedig. Mae'n rhaid i chi, neu'ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer briff gwylio yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r adeiladu. Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, dylai eich ymarferydd archaeolegol gynhyrchu adroddiad ar y briff gwylio, i'w gyflwyno i Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH) Rhanbarthol. Dylai archif o'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prosiect gael ei chreu a'i rhoi ar adnau gydag amgueddfa neu gyda'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth.

## Cloddio archaeolegol

Lle nad oes modd diogelu olion archaeolegol, gall eich awdurdod cynllunio lleol fynnu eich bod yn ymgymryd â chloddiad archaeolegol llawn. Mae hyn yn golygu gwneud gwaith cloddio gofalus a chofnodi dyddodion archaeolegol o fewn ardal benodedig gydag amcanion ymchwil diffiniedig. Fel arfer, caiff hyn ei wneud cyn adeiladu. Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, dylai eich ymarferydd archaeolegol gynhyrchu adroddiad ar y prosiect sy'n cynnwys dadansoddiadau arbenigwyr o arteffactau, dyddodion amgylcheddol ac olion eraill, i'w gyflwyno i Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH) Rhanbarthol. Dylai archif o'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prosiect gael ei chreu a'i rhoi ar adnau gydag amgueddfa neu gyda'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth. Gall cynhyrchu archif, adroddiadau gan arbenigwyr a chwblhau adroddiad terfynol gymryd cryn amser. Mae'n bwysig eich bod yn dyrannu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yn gynnar.

Mae'n rhaid i chi, neu'ch ymarferydd archaeolegol ar eich rhan, sicrhau bod eich cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer cloddiad yn cael ei gymeradwyo gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r gwaith.



Nid yw archaeoleg yn hynafol o hyd. Yma, mae cofnod yn cael ei wneud o dai gwydr a nodweddion gardd eraill o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddatgelwyd yn ystod gwaith codi adeilad newydd.

# DYMA SUT I DDOD O HYD I FWY O WYBODAETH AM DDEDDFWRIAETH A CHANLLAWIAU

## Beth yw'r ddeddfwriaeth allweddol?

**Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol (1979)** sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu a rheoli archaeoleg. Yng Nghymru, mae Deddf 1979 wedi'i diwygio gan **Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016)** ac mae ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (PPW)** yn darparu'r cyd-destun cynllunio cyffredinol yng Nghymru ac mae'n cydnabod yr angen i'r system gynllunio ddiogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Mae **Nodyn Cyngor Technegol 24 (TAN 24)** yn darparu canllawiau cenedlaethol manwl pellach ar y modd y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i'r amgylchedd hanesyddol yn y broses gynllunio. Mae'r ddogfen hon ar gael yn https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

## Pa ganllawiau eraill sydd ar gael?

Mae Cadw wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau a dogfennau arfer gorau sy'n ategu'r ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol a chynllunio. Maent ar gael ar wefan Cadw https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/deddfwriaeth-a-chanllawiau/polisi-cyngor-a-chyfarwyddyd ac yn cynnwys:

- Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn ffordd Cynaliadwy
- Deall Cofrestru yng Nghymru
- Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru
- Deall Rhestru yng Nghymru
- Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru
- Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru
- Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru
- Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynhyrchu dogfen *Archaeoleg: Canllawiau Cynllunio Atodol*. Mae’r dogfennau hyn wedi’u paratoi i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Maent ar gael ar wefannau awdurdodau cynllunio lleol.

Mae’r Panel Cenedlaethol ar gyfer Archifau Archaeolegol yng Nghymru wedi cynhyrchu Safon Genedlaethol a Chanllawiau Arfer Gorau ar gyfer Casglu ac Adneuo Archifau Archaeolegol yng Nghymru 2017, ac mae ar gael yn http://www.welshmuseumsfederation.org/cy/newyddion/adnoddau-hafan/Casgliadau/y-safon-genedlaethol-a-chanllawiau-arfer-gorau-ar-gyfer-casglu-ac-adneuo-archifau-archaeolegol-yng-nghymru-2017.html

Mae’r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer ymarferwyr archaeolegol sy’n cyflwyno adroddiadau a data arall ar gyfer eu hymgorffori yn y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol. Mae’r canllawiau hyn ar gael ar wefannau unigol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

Mae arweiniad ar ddeall adeiladau hanesyddol a’r pedair lefel mewn arolwg adeiladau ar gael yn: https://historicengland.org.uk/images-books/publications/understanding-historic-buildings/heag099-understanding-historic-buildings/

## BETH YW SEFYDLIAD SIARTREDIG YR ARCHAEOLEGWYR?

Mae Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) yn sefydliad proffesiynol i archaeolegwyr sy’n gweithio yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae’n cyhoeddi Cod Ymddygiad a chyfres o safonau sy’n rhwymol ar yr holl aelodau a Sefydliadau Cofrestredig er mwyn sicrhau bod aelodau CIfA yn gweithio i safonau moesegol a phroffesiynol uchel. Lle ceir pryderon nad yw gwaith a wnaed gan aelodau CIfA wedi bodloni’r safonau moesegol a phroffesiynol hyn, gall CIfA ymchwilio, a lle bo angen, gychwyn achos o ymddygiad proffesiynol. Mae gwybodaeth am reoliadau, safonau a chanllawiau CIfA ar gael yn: https://www.archaeologists.net/codes/cifa



*Mae samplau o briddoedd a dyddodion archaeolegol yn cael eu codi er mwyn eu dyddio'n wyddonol a'u dadansoddi er mwyn helpu i ddeall amgylcheddau'r gorffennol.*

# Â PHWY YDW I'N CYSYLLTU I GAEL MWY O WYBODAETH A CHYNGOR?

Dylech gysylltu â'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol perthnasol yng Nghymru neu **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** i gael cyngor archaeolegol ar eich cais cynllunio:

**Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn darparu cyngor i**:

1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ochr ddwyreiniol)
2. Cyngor Sir Ddinbych
3. Cyngor Sir y Fflint
4. Cyngor Sir Powys (heb gynnwys BBNPA)
5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn darparu cyngor i**:

6. Cyngor Sir Caerfyrddin (heb gynnwys BBNPA)
7. Cyngor Sir Ceredigion
8. Cyngor Sir Penfro

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent yn darparu cyngor i**:

9. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (heb gynnwys BBNPA)
10. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
11. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (heb gynnwys BBNPA)
12. Cyngor Caerdydd
13. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (heb gynnwys BBNPA)
14. Cyngor Sir Fynwy (heb gynnwys BBNPA)
15. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot(heb gynnwys BBNPA)
16. Cyngor Dinas Casnewydd
17. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (heb gynnwys BBNPA)
18. Dinas a Sir Abertawe
19. Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
20. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (heb gynnwys BBNPA)


Mae Awdurdodau Unedol 9,11,13,14,15,17,ac 20 yn cynnwys ardal fach o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA).

**Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn darparu cyngor i**:

1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ochr orllewinol)

21. Cyngor Gwynedd
22. Cyngor Sir Ynys Môn

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri




*Map o bedwar rhanbarth ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, yn dangos ardaloedd awdurdodau lleol (wedi'u rhifo) a'r tri pharc cenedlaethol (mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i amlinellu'n goch; mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i amlinellu'n wyrdd; mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi'i amlinellu'n las).*

# MANYLION CYSWLLT

## Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Y Swyddfeydd
Coed y Dinas
Y Trallwng
Powys
SY21 8RP
Ar gyfer ymholiadau cynllunio, cysylltwch â: mark.walters@cpat.org.uk a sophie.watson@cpat.org.uk Ffôn: 01938 553670/552035 Symudol: 07736 163148/07496 984393

## Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Corner House
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AE
Ar gyfer ymholiadau cynllunio, cysylltwch â:
m.ings@dyfedarchaeology.org.uk 01558 825987 a
z.bevansrice@dyfedarchaeology.org.uk 01558 825983

## Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent

Gwasanaethau Cynghori
Glamorgan-Gwent Archaeological Trust
SA12 Business Centre
Seaway Parade
Baglan Energy Park
Port Talbot
SA12 7BR
Ar gyfer ymholiadau cynllunio, cysylltwch â: planning@ggat.org.uk 01792 634221 neu 01792 634222

## Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT
Ar gyfer ymholiadau cynllunio, cysylltwch ag: Adran Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd: jenny.emmett@heneb.co.uk a tom.fildes@heneb.co.uk 01248 370926 symudol 07824 481052 neu 07920 264232

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
LD3 7HP
planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk  Ffôn: 01874 624437

Dylech gysylltu â Cadw os ydych o’r farn y gallai eich cais cynllunio effeithio ar heneb gofrestredig:

**Cadw**
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
cadwplanning@gov.wales

Dylech gysylltu â’ch awdurdod cynllunio lleol os ydych o’r farn y gallai eich cais cynllunio effeithio ar adeilad rhestredig neu Safle Treftadaeth y Byd. Mae manylion cyswllt ar gael ar wefannau awdurdodau lleol.